4.105

X2052 13773

# CYFANSODDIADAU BUDDUGOL YN EISTEDDFOD GIBEON, TAIBACH,

*MAWRTH* 28*ain*, 1868.

## CAN O GLOD I J. M. PHILLIPS, Ysw., M.D., M.R.C.S., *Meddyg, Taibach.*

MAE nyddu cerdd deilwng a'i gollwng i gyd,
I sylw cymdeithas, yn addas o hyd;
Ein hawen a edrych fod gwrthrych y gân,
Yn hawlio cerdd dillyn, a'r delyn ar dân;
Ein PHILLIPS hawddgaraf, siriolaf mewn swydd,
O'n calon dderchafwn, anrhegwn yn rhwydd,
A molawd, wr addien, mae'n llawen mewn llwydd.
Mawrygwn swydd Benfro, am Gymro mor gu,
Yn feddyg rhagorol, a llesol i'r llu,
I'w urddo'n wr graddiol mae'r doniol "M.D."

Yn galed llafuriodd, a neidiodd ef, nes
Gwir haeddu y graddiad, o "M.R.C.S."
Ei deitlau a brofant wybodaeth ei ben,
Mae'n glod i ni'n ddilys trwy'r hoff Ynys Wen;
Fe deimla'n hardaloedd 'i alluoedd yn llawn,
Trwy'r cyffyr meddygol rhagorol a gawn, [ddawn.
I'n gwella'n iach beunydd, gwna ddefnydd o'i
Ein harwr arddengys yn hysbys ei hedd,
Pan fyddo ef i ni yn gweini'n mhob gwedd,
Er cadw yn ddiwyd ein bywyd o'r bedd.

Fe'i ceir a'i holl egni i loni'r tylawd,
A thrinia eu cleisiau a'u briwiau fel brawd;
Rhai gynt fu'n gystuddiol sy'n wrol ac iach,
A'i molant a'u doniau trwy barthau'r Taibach.
Pan welwyd y *Geri* yn glynu ei gledd,
Mewn tyner fynwesau, dros ddyddiau'n ddihedd,
Gan daflu ei ddegau dan farau y bedd;
Ein PHILLIPS oedd ffyddlon a thirion wrth raid,
A dygodd ugeiniau o boenau dibaid,
Gan enill clod calon rhai blinion o'i blaid.

Ar hen iaith y Bryniau yn ddiau fe ddyd,
Er gwaethaf y Saeson, ei galon i gyd;
Yr hen Gymraeg burlan yn llydan a llawn,
Bob amser o'i fynwes yn gynes a gawn;
Er yfed dysgeidiaeth yn helaeth o hyd,
A rhoddi ymgeledd i'n bonedd, da'u byd,
Ein harwr sydd i ni'n wladgarwr i gyd.
Mae'n hynod haelionus a gweddus i'r gwan,
Fel gwron dyngarol rhinweddol ei ran,
Lle byddo'n gwr siriol, dymunol yw'r man.

Cefnoga'n llenyddiaeth bur helaeth ei bri,
Yn hyn mae'n boneddwr yn noddwr i ni;
Ei galon a'i logell sy'n cymhell, er cael
Ein hardal heb arbed, i yfed yn hael,
O ffrydiau gwybodaeth, lân odiaeth o hyd,
I'n derchu'n llenorion twymgalon i gyd,
A bod yn ddiragrith er bendith i'r byd.
Mae'n feddyg i'n *moesau* yn ddiau a'i ddawn,
Pur foddion o'i feddwl digwmwl a gawn,
Trwy'n PHILLIPS odidog, galluog wellhawn.

Fe ddringodd *rhai* t'lodion, yn fawrion i fysg,
Boneddwyr cyfoethog, godidog eu dysg;
'R hen gapel lle'u magwyd, adawyd, a hwy
Ymgilient heb orphwys, i eglwys y plwy';
Ond, PHILLIPS hawddgarol, rhagorol a gawn,
Yn derbyn o faeth Ymneillduaeth a'i dawn,
A'i galon fawr drosti yn llosgi yn llawn.
O'i safle, 'n boneddwr sydd garwr y *gwir*,
*Cydwybod* sydd ganddo, yn tanio trwy'n tir,
Mae'n ddyn *egwyddorol* a swynol i'n sir.

Hir einioes o rinwedd, dan nodded y ne',
I'r anwyl wr hynaws, medd lliaws y lle;
Gwnaed Iesu bendigaid ei enaid yn iach,
Yn Noddfa boed iddo, pan beidio'r Taibach;
Meddianed amynedd hyd ddiwedd ei ddydd,
A chaffed ddoethineb, a rhwydd-deb yn rhydd,
Er gwella rhai clwyfus, dirboenus tra bydd;
'Nol euroes o ymdrech, mewn traserch, aed trwy
Niwl angeu, i wynfyd, heb glefyd neu glwy',
I foli heb ddiffyg wir FEDDYG sydd fwy.

HEN OFYDD O LAN AFAN.

---

## I'R AWRLAIS.

Rhagorol siriol amserydd—yw glwys
Hen gloc y gwaith efydd;
Heb ei anog â beunydd;
Cywrain ddarn, coron ei ddydd. [BRONWEN.

## I'R MWG.

Anmhuredd y mwg marwol—sy'n arwain
Pwys ochain pesychol;
Fe lyn i ladd dyn a dol
Ag anianawd gwenwynol. [DOLURUS.

## I'R DIOGYN.

Diau agwedd y Diogyn—welir
Mae'n waelaf segurddyn;
Ar hyd ei fywyd ni fyn
Weithio—yr haner noethyn. [IAGO.

---

WILLIAMS, (DIWEDDAR LEYSHON), ARGRAFFYDD, PENYBONT-AR-OGWY.